YR ATODLEN

# RHAN 1—

## ADRAN FFERM GYFAN

Amodau y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy mewn perthynas â'r cyfan o'r tir sydd o dan gytundeb. Mae'r amodau fel a ganlyn:

FFINIAU CAEAU

- Cadwer holl ffiniau traddodiadol caeau (gwrychoedd neu berthi, waliau cerrig sych, argloddiau ag arwyneb o gerrig neu hebddo, ffensys llechi) a nodweddion cysylltiedig (pyst llidiart carreg, camfeydd carreg).
- Dylid defnyddio deunyddiau a dulliau traddodiadol ar gyfer unrhyw waith cynnal a chadw a wneir ar ffiniau traddodiadol.
- Gadawer heb eu torri mewn unrhyw un flwyddyn o leiaf 25% o wrychoedd neu berthi gan gynnwys unrhyw wrychoedd neu berthi ar gloddiau, gan adael pob gwrych neu berth heb ei dorri neu ei thorri am o leiaf un flwyddyn o bob pedair (ac eithrio pan fydd gofynion priffyrdd ac/neu iechyd a diogelwch yn rhwystr i hynny gydag ymyl ffyrdd).
- Na thorrer gwrychoedd neu berthi rhwng 1 Mawrth a 31 Awst (ac eithrio pan fydd gofynion priffyrdd ac/neu iechyd a diogelwch yn rhwystr i hynny gydag ymyl ffyrdd).

CLUSTOGFEYDD FFINIAU CAEAU

- Peidier â thrin y tir, taenu arno wrteithiau, calch, chwynladdwyr neu blaladdwyr eraill (onid rhoi triniaeth gyfyngedig a wneir i chwyn niweidiol neu i rywogaethau estron goresgynnol megis clymog Japan, Jac y Neidiwr, yr Efwr Enfawr, neu'r Rhododendron, fel a fanylir yn Adran 1 o Ddeddf Chwyn 1959, ac unrhyw chwyn eraill a ragnodir wedyn gan reoliadau o dan Ddeddf Chwyn 1959) o fewn clustogfa 1 metr o led wedi'i fesur o ymyl allanol gwaelod ffin draddodiadol cae (ar y naill ochr a'r llall).

COED

- Cadwer coed unigol. Os bydd hynny'n bosibl, anoger aildyfiant naturiol yn lle coed a gollwyd, neu fel arall ailblanner coed gan ddefnyddio glasbrennau o darddiad lleol.
- Na ddifroder coed a phlanhigion ac anifeiliaid cysylltiedig (e.e. drwy dreigl plaladdwyr).
- Dylai unrhyw reolaeth ddilyn y canllawiau ar gyfer ystlumod mewn coed.
- Cadwer coed crin onid ydynt yn achos perygl posibl neu rwystr.

MYNEDIAD I'R CYHOEDD

- Cydymffurfier â gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â hawliau tramwy sy'n bodoli ar dir, gan gynnwys osgoi rhoi rhwystrau ar eu traws, a'u hailagor ar ôl aredig.
- Rhodder caniatâd i gael mynediad ar droed i dir y dangosir ar y mapiau a baratowyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ei fod yn dir sydd ar gael ar gyfer mynediad o'r fath.

NODWEDDION TIRWEDD A NODWEDDION HANESYDDOL

- Diogeler nodweddion archaeolegol neu hanesyddol rhag cael eu niweidio gan dda byw, gan gerbydau, gan drin y tir neu adennill tir. Ni ddylid plannu coed na dwyn cerrig ymaith.
- Dylid cynnal a chadw adeiladau traddodiadol gwrth-dywydd a chadarn mewn cyflwr da, gan ddefnyddio deunyddiau traddodiadol.

- Dylid cynnal a chadw adeiladau traddodiadol gwrth-dywydd a chadarn a addaswyd gan ddefnyddio deunyddiau modern ond caniateir trwsio'r cydrannau modern â deunyddiau modern neu roi deunyddiau modern yn eu lle.
- Rhaid cynnal a chadw nodweddion tirwedd traddodiadol a chadarn eraill sydd mewn cyflwr da (e.e. corlannau defaid, pontydd meini carreg).
- Rhaid cadw nodweddion hanesyddol ac adeiladau traddodiadol sy'n adfeilion neu eu holion onid ydynt yn achos perygl posibl.
- Nac aflonydder ar rywogaethau a warchodir ac a all fod yn defnyddio'r safleoedd hyn.
- Rhaid cydymffurfio â Deddf Trysor 1996 wrth ddefnyddio canfodyddion metel.

ARWEDDION CRAIG A THIRFFURFIAU

- Diogeler arweddion craig a safleoedd daearegol drwy osgoi aflonyddu'n ffisegol arnynt. Nac echdynner craig, sgri, tywod, gro, graean, clai neu fawn (ac eithrio o chwareli sy'n bodoli neu at ddefnydd ar y fferm) ac na losger llystyfiant ar ardaloedd creigiog.
- Cadwer clustogfa o 2m o gwmpas arweddion craig heb drin y tir, neu ddefnyddio gwrteithiau, calch, chwynladdwyr neu blaladdwyr eraill, (oni bai ar gyfer rhoi triniaeth gyfyngedig i chwyn niweidiol neu rywogaethau estron goresgynnol).

SBWRIEL

- Cadwer y fferm yn glir o sbwriel gan osgoi dymchwel sbwriel megis hen gerbydau a chyfarpar domestig nas defnyddir mwyach, yn y caeau neu o fewn cwrtil y fferm.

PRIDD A DŴR

- Gwarchoder yr holl nodweddion dŵr — llynnoedd, pyllau dŵr, afonydd a ffosydd — rhag niwed drwy dreigl tail, gwrteithiau, cemegion eraill ac ysgeintio damweiniol o gaeau cyfagos.
- Ni ddylid trin y tir neu daenu arno wrteithiau, deunydd gwastraff oddi ar y fferm, calch, plaladdwyr neu gemegion eraill fel eu bod yn glanio o fewn 1m i nodwedd ddŵr.
- Na thaener tail buarth fferm neu slyri o fewn 10m i nodwedd ddŵr.
- Rheoler y tir er mwyn osgoi stablan y pridd yn ormodol i'r graddau bod hynny'n andwyol i'r amgylchedd y tu hwnt i ffiniau'r safle ei hun, a hynny drwy lif dwr ac erydu pridd sy'n arwain at lygru cyrsiau dŵr a pheri bod mwy o waddod ynddynt.
- Dylid osgoi pori trwm pan fo hyn yn arwain at ddwyn ymaith lystyfiant sydd yn ei dro yn arwain at erydu pridd.
- Dylid osgoi erydu gormod ar lannau cyrsiau dŵr a llygru'r dŵr gan dda byw a dylid rheoli mynediad lle y bo angen hynny.

RHYWOGAETHAU NAD YDYNT YN RHAI BRODOROL

- Na chyflwyner o'r newydd ar y tir unrhyw rywogaethau anifeiliaid neu blanhigion nad ydynt yn rhai brodorol, ac eithrio ar gyfer cynhyrchu amaethyddol.

RHYWOGAETHAU A WARCHODIR

- Nac aflonydder ar rywogaethau a warchodir megis pathewod, ystlumod, llygod pengrwn y dŵr, dyfrgwn, a moch daear ac ymgynghorer â'r CGC neu â Llywodraeth Cynulliad Cymru a chaffael unrhyw drwydded sy'n angenrheidiol cyn gwneud gwaith os oes rhywogaethau a warchodir yn bresennol.

LLES ANIFEILIAID A GWARCHOD BYWYD GWYLLT

- Cydymffurfier â Chodau perthnasol y Cynulliad Cenedlaethol ar Les Da Byw.

# RHAN 2 —

## CYNEFINOEDD BYWYD GWYLLT

Mae'n un o ofynion Cynllun Tir Cynnal bod y cynefinoedd bywyd gwyllt sy'n bodoli ar y tir cytundeb yn cael eu gwarchod rhag niwed. Rhaid i o leiaf 5% o'r tir cytundeb fod yn gynefinoedd bywyd gwyllt.

Y prif grwpiau o gynefinoedd bywyd gwyllt yw'r canlynol (ond nid yw'r rhestr yn un gyflawn):

Coetir llydanddail: coetir, gan gynnwys llennyrch a rhodfeydd cysylltiedig, y mae o leiaf 50% o'r coed sydd ynddo yn goed brodorol neu'n goed yw. Cynhwysir coetir gwlyb o wern neu helyg a hefyd berllannau'n cynnwys coed ffrwythau hirgyff. Caniateir cynnwys coetir sy'n ymgorffori coed coniffer ar yr amod bod y rhywogaethau brodorol sydd ynddo yn gorchuddio mwy na 50% o'r arwynebedd (er y gellir cynnwys y rhai sydd â llai na 50% o rywogaethau brodorol os ydynt ar safleoedd coetiroedd hynafol).

Prysgwydd: ardaloedd lle y mae mwyafrif y prysgwydd yn rhai brodorol megis y ddraenen wen, y ddraenen ddu, eithin, ysgaw, bedw neu fwyar duon.

Gweundir: ardaloedd lle y mae o leiaf 25% o'r llystyfiant yn cynnwys corlwyni megis grug, llus ac eithin mân. Fe'u ceir mewn ystod o leoliadau o ardaloedd arfordir ac iseldir i ucheldiroedd. Mae gweundiroedd ucheldir, sydd fel arfer yn uwch na therfyn caeau amaethyddol, yn aml yn gysylltiedig â chynefinoedd rhostir megis corsydd a phorfa asid.

Gweundiroedd mynydd-dir uchel: yn fwyaf nodweddiadol, gorchuddir y rhan helaethaf o'r rhain, sydd hefyd yn cael eu cynnwys, gan fwsoglau, cennau, glaswellt prin a chlytiau o dir caregog heb lystyfiant.

Porfa: Ystod o gynefinoedd yn cynnwys porfa na chafodd ei gwella, porfa led naturiol, caeau gwair traddodiadol a phorfeydd corsiog, na fu unrhyw drin arnynt, na chawsant eu hau o'r newydd, na thaenwyd chwynladdwyr arnynt ac na chawsant eu draenio yn ystod y deng mlynedd diwethaf neu fwy. Ar y mwyaf ni fyddant wedi'u gwrteithio ond yn ysgafn â gwrtaith anorganig a nodwedd y cynefin fydd na fydd yno neu prin y bydd yno rywogaethau porfa a gafodd ei gwella megis rhygwellt parhaol a meillion gwyn. Os bydd y rhain yn fwy na 25% o'r glaswellt dylai'r tir gael ei ddosbarthu fel porfa a gafodd ei gwella ac nis cynhwysir yn gynefin o dan gynllun Tir Cynnal.

Gwlyptiroedd: Mathau o dir sy'n cynnwys corsydd, gwelyau brwyn, mignenni a ffeniau. Fe'u ceir ar fawn dwfn a/neu lle y mae'r tabl dŵr ar yr un lefel â'r tir neu'n uwch am y rhan fwyaf o'r flwyddyn.

Ardaloedd arfordirol: Maent yn cynnwys morfeydd heli a thwyni tywod, yn ogystal â phrysgwydd arfordirol, gweundir, a phorfeydd y mae'r grwpiau cynefin blaenorol yn eu gorchuddio.

Mae'r rhestr uchod yn diffinio'r prif fathau o gynefinoedd, ond gellir cynnwys yn gynefin Tir Cynnal ardaloedd neu gyrff lled naturiol eraill o ddŵr megis pyllau dŵr.

- Rhaid glynu at set enerig o ragnodau ar ardaloedd cynefin ar y fferm. Maent fel a ganlyn:

**Diogelu Cynefinoedd Bywyd Gwyllt — Amodau**

- Ni ddylid aredig, trin y tir na hau o'r newydd.
- Na ddefnyddier rholer na tsiaen ogau rhwng 1 Ebrill ac 15 Gorffennaf bob blwyddyn.
- Na osoder system ddraenio newydd
- Ni ddylid clirio ffosydd rhwng 1 Mawrth a 31 Awst
- Na ddefnyddier chwynladdwyr neu blaladdwyr (ac eithrio i roi triniaeth gyfyngedig i chwyn niweidiol).

- Ymgynghorer â Chyngor Cefn Gwlad Cymru ac/neu Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ynghylch chwistrellu rhedyn ac ystyrier a oes angen Asesiad Effaith Amgylcheddol.
- Na ddefnyddier gwrteithiau anorganig, gwrteithiau organig wedi'u prynu mewn bagiau, slyri neu ddeunyddiau gwastraff eraill oddi ar y fferm.
- Na thaener unrhyw galch, slag basig, gwymon wedi'i galcheiddio, papur gwastraff, slwtsh neu ddeunyddiau gwastraff eraill oddi ar y fferm.
- Dylid stocio'r tir yn unol â Chod Arfer Ffermio Da yn enwedig fel na fydd gorbori neu ddim digon o bori.
- Dylid osgoi ymgymryd ag arferion bwydo atodol pan fydd y rhain yn peri niwed i lystyfiant a stablan y pridd.
- Nac ymgymerer â bwydo atodol o fewn coetir llydanddail neu goetir cymysg.
- Dylid osgoi rhychau cerbydau ar lystyfiant.
- Nac echdynner mawn na symud ymaith greigiau.
- Cadwer twmpathau morgrug.
- Na symuder ymaith unrhyw bentyrrau o wymon.

Os nad oes digon o dir i fodloni'r rheol 5% gellir cynnwys gwrychoedd neu berthi sy'n bodoli a chynefinoedd/neu gynefinoedd newydd a gaiff eu creu er mwyn bodloni'r gofyniad hwn a'u cyfrif yn rhan o'r ardal gynefin.

Gwarchodir yn y cynllun yr holl wrychoedd neu berthi o dan amodau'r adran fferm gyfan yn Rhan 1. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer bod yn rhan o ardal gynefin, rhaid i wrychoedd neu berthi o'r fath:

- Bod yn 2 fetr o leiaf o led rhwng ochrau'r gwrych neu'r berth gan gynnwys llystyfiant trwchus cyfagos cysylltiedig — 2 fetr yw'r lled safonol wrth gyfrifo arwynebedd gwrych neu berth.
- Cynnwys rhywogaethau brodorol megis coed cyll, y ddraenen wen, y ddraenen ddu a chelyn.
- Bod yn ddi-fwlch (ac eithrio ar gyfer llidiardau ac o dan goed gwrychoedd neu goed perthi) rhwng corneli'r cae er mwyn darparu coridor bywyd gwyllt di-fwlch ar hyd y gwrych neu'r berth.
- Cael eu gwarchod rhag da byw ar y naill ochr a'r llall. Os nad oes da byw'n bresennol (e.e. ar ffermydd tir âr) rhaid cadw heb unrhyw aflonyddu arno stribed 2 fetr o led gan gynnwys y gwrych neu'r berth ei hun a llystyfiant trwchus cysylltiedig.
- Bod yn gyfan gwbl o dan rheolaeth y deiliad cytundeb Tir Cynnal fel bod y deiliad Cytundeb Tir Cynnal yn gallu gweithredu'n llwyr yr amodau ar gyfer gwrychoedd neu berthi yn yr Adran Fferm Gyfan. Mae hyn yn golygu na fyddo gwrychoedd neu berthi ffiniol yr ydych yn eu rhannu â ffermwr arall neu'r rhai ar ymyl priffyrdd cyhoeddus yn gymwys i'w cynnwys yn gynefin mewn llawer o achosion.
- Os cynhwysir gwrychoedd neu berthi yn gynefin rhaid ychwanegu'r amod clustogfa 1 metr at led 2m y gwrych neu'r berth.

Os yw'r ardaloedd cynefin (ynghyd â gwrychoedd neu berthi cymwys os cynhwyswyd y rhain) yn dod i lai na 5% o dir y fferm bydd angen i'r ffermwr nodi ardaloedd o dir wedi'i wella lle y caiff cynefinoedd newydd eu creu. Bydd yn ofynnol i'r ardaloedd newydd hyn, o ychwanegu unrhyw gynefin sy'n bodoli atynt, fod yn gymaint â'r isafswm o 5% neu'n fwy na hynny.

Mae saith opsiwn ar gael i'r ffermwr o dan y cynllun o ran creu cynefin. Gall y ffermwr ddewis un neu fwy i weddu i reolaeth y fferm. Mae'r opsiynau fel a ganlyn:

1. Creu coridorau glannau nentydd gydag ymyl cyrsiau dŵr.
2. Taenu llai ar dir a hynny i adfer tir a gafodd ei wella yn dir a gafodd ei led wella.
3. Gadael lleiniau ymyl o rawnfwyd heb ei dorri ar dir grawnfwydydd.

**4.** Creu lleiniau ymyl glaswelltog ar dir grawnfwydydd.

**5.** Plannu coed llydanddail ar raddfa fechan.

**6.** Sefydlu cnydau gorchudd i adar gwyllt.

**7.** Sefydlu cnydau gwreiddlysiau nas chwistrellir.

**Rhagnodau ar gyfer creu coridor glannau nentydd**

- Dylid sicrhau na chaiff da byw fynd ar stribed o dir 10m o led ar gyfartaledd yn gyfagos at gwrs dŵr. Gwneir hyn fel arfer drwy godi ffens, oni all amgylchiadau sicrhau na all da byw fynd ar y stribed (e.e. ffermydd tir cytundeb lle nad oes da byw, neu ardaloedd a amddiffynnir gan nodweddion naturiol). Ni ddylai'r stribed fod yn gulach na 6m yn unrhyw fan.
- Ymgymerer â'r holl ragnodau perthnasol sy'n gymwys i gynefinoedd bywyd gwyllt ac a ddynodir o dan Tir Cynnal (cyfeirier at ragnodau diogelu cynefin bywyd gwyllt).
- Na thaener tail buarth fferm.

**Rhagnodau ar gyfer taenu llai a hynny er mwyn adfer tir a gafodd ei wella yn dir a gafodd ei led wella**

- Ymgymerer â'r holl ragnodau perthnasol sy'n gymwys i gynefinoedd bywyd gwyllt ac a ddynodir o dan Tir Cynnal
- Na thaener tail buarth fferm.

**Rhagnodau ar gyfer gadael lleiniau ymyl heb eu torri ar dir grawnfwydydd**

- Mae'r llain ymyl i'w defnyddio ar bentiroedd detholedig a rhaid iddi fod rhwng 4 metr o leiaf a 12 metr ar y mwyaf o led, y tu hwnt i'r glustogfa ffin cae 1 metr.
- Caniateir lleoli'r llain ymyl yn yr un lle neu gellir ei symud mewn cylch o gwmpas y tir cytundeb ym mhob un o flynyddoedd y cynllun. Os y'i symudir mewn cylch, dylid cadarnhau bob blwyddyn beth yw'r arwynebedd lleiaf sy'n ofynnol i fodloni'r “rheol 5% ”.
- Dylid caniatáu i'r llain ymyl aildyfu'n naturiol.
- Cadwer yr holl dda byw oddi ar y llain ymyl.
- Ymgymerer â'r holl ragnodau perthnasol sy'n gymwys i gynefinoedd bywyd gwyllt ac a ddynodir o dan Tir Cynnal (cyfeirier at y rhagnodau diogelu cynefin bywyd gwyllt yn Rhan 2).
- Na thaener tail buarth fferm.
- Na thaener molwsgladdwyr.
- Dylid trin y llain ymyl unwaith bob blwyddyn rhwng 1 Hydref a 31 Mawrth (os bydd y llain ymyl yn aros yn ei hunfan am fwy na blwyddyn, caniateir ei thrin bob yn ail flwyddyn).
- Ni chaniateir mynediad rheolaidd i beiriannau ar unrhyw ran o'r llain ymyl na defnyddio unrhyw ran ohoni fel llwybr. Mae torri gwrychoedd neu berthi neu gynnal arolygiadau rwtîn yn dderbyniol, ond os yw'n anhepgorol mynd ar y llain ymyl yn rheolaidd, rhaid iddi fod yn 7 metr o led o leiaf.

**Rhagnodau ar gyfer lleiniau ymyl glaswelltog ar dir grawnfwydydd**

- Mae'r llain ymyl i'w defnyddio ar bentiroedd detholedig a rhaid iddi fod rhwng 4 metr o leiaf a 12 metr ar y mwyaf o led y tu hwnt i'r glustogfa ffin cae 1 metr. Gellir symud y llain ymyl mewn cylch yn flynyddol neu, ar yr amod y gellir glynu at yr holl ragnodau, gall aros yn ei hunfan

- Rhaid hau cymysgedd o ddau o leiaf o'r rhywogaethau glaswellt canlynol er mwyn gorchuddio'r llain ymyl yn gyfan gwbl:

  Rhonwellt y ci (Cynosurus cristatus)

  Maswellt penwyn ( Holcus lanatus)

  Gweunwellt llyfn (Poa pratensis)

  Perwellt y gwanwyn (Anthoxanthum odoratum)

  Troed y ceiliog (Dactylis glomerata)

  Peiswellt y defaid (Festuca ovina)

  Peiswellt (Festuca pratensis)

**Yn ogystal ag o leiaf 3 kg/ha o naill ai meillion coch, meillion Sweden neu bys-y-ceirw.**

- Cyhyd ag y bydd y llain ymyl yn aros yn ei hunfan gellir cadw'r llystyfiant sy'n bodoli am yr ail flwyddyn a'r blynyddoedd canlynol.
- Rhaid gadael y glaswellt heb ei dorri a heb ei bori rhwng amser hau a 15 Gorffennaf.
- Rhaid torri'r llain ymyl o leiaf unwaith y flwyddyn a chaniateir dwyn y torion ymaith (gellir eu difrodi, e.e. drwy eu compostio, neu eu defnyddio, e.e. fel gwair, silwair, neu borthiant glas).
- Ymgymerer â'r holl ragnodau perthnasol sy'n gymwys i gynefinoedd bywyd gwyllt ac a ddynodir o dan Tir Cynnal (cyfeirier at y rhagnodau diogelu cynefin bywyd gwyllt yn Rhan 2).
- Na thaener tail buarth fferm.
- Na thaener molwsgladdwyr.
- Na chaniatäer i gerbydau fynd ar y llain ymyl rhwng amser hau ac 15 Gorffennaf yn y flwyddyn gyntaf, neu wedi hynny cyn 15 Gorffennaf os cedwir y llain ymyl yn ei hunfan am nifer o flynyddoedd.

**Rhagnodau ar gyfer plannu coed llydanddail ar raddfa fechan**

- Rhaid i'r arwynebedd a gaiff ei blannu fod yn arwynebedd a oedd cyn plannu yn borfa a gafodd ei gwella neu'n dir âr.
- Rhaid i'r coed fod yn rhywogaethau llydanddail brodorol ac o ran trwch dylid eu plannu fel nad oes llai na 3 metr rhyngddynt.
- Amddiffynner y coed rhag da byw tra pery'r cytundeb Tir Cynnal. Cyflawnir hyn fel arfer drwy godi ffensys, oni fydd amgylchiadau'n sicrhau na fydd unrhyw dda byw yn gallu mynd ar y tir (e.e. tir cytundeb heb dda byw, neu ardaloedd a amddiffynnir gan nodweddion naturiol).
- Ymgymerer â'r holl ragnodau perthnasol sy'n gymwys i gynefinoedd bywyd gwyllt ac a ddynodir o dan Tir Cynnal.
- Caniateir taenu tail buarth fferm ar raddfa o 25 tunnell ar y mwyaf fesul hectar cyn plannu. Ni ddylid taenu tail buarth fferm o gwbl ar ôl plannu.

**Rhagnodau ar gyfer sefydlu cnwd gorchudd i adar gwyllt**

- Dylid trin gwely hadau sy'n cynnwys o leiaf ddau neu dri math gwahanol o gnwd a dylai'r gwely fod yn 4 metr o led ac ar ymylon caeau (ond mae caeau cyfan yn dderbyniol hefyd) a dylid sefydlu'r cnwd yn flynyddol cyn 20 Ebrill. Mae rhywogaethau nodweddiadol yn cynnwys: barlys, ceirch, tritical, had llin, cwinoa, miled, mwstard, cêl, cribau'r pannwr, betys porthiant, meillion coch, a'r godog.
- Rhaid peidio â thorri'r cnwd na'i bori cyn 15 Mawrth yn y flwyddyn sy'n dilyn ei sefydlu.

- Na thaener pryfladdwyr, ffwngladdwyr, molwsgladdwyr neu chwynladdwyr (ac eithrio ar gyfer rhoi triniaeth gyfyngedig i chwyn niweidiol neu rywogaethau estron goresgynnol).
- Dim ond ar adeg sefydlu cnwd y caniateir defnyddio calch neu wrtaith (organig neu anorganig).
- Ymgymerer â'r holl ragnodau perthnasol sy'n gymwys i gynefinoedd bywyd gwyllt ac a ddynodir o dan Tir Cynnal.

**Rhagnodau ar gyfer sefydlu cnydau gwreiddlysiau nas chwistrellir**

- Sefydler cnwd gwreiddlysiau'n flynyddol cyn 1 Gorffennaf (e.e. rwdins neu swêds, neu erfin neu faip) mewn caeau cyfan neu ar ymylon caeau.
- Caniateir taenu glyffosad i ddifrodi llystyfiant sy'n bodoli cyn sefydlu'r cnwd, ond ni ddylid defnyddio unrhyw chwynladdwyr eraill, (ac eithrio i roi triniaeth gyfyngedig i chwyn niweidiol neu rywogaethau estron goresgynnol).
- Dim ond os y'u rhoddir yn y twll neu'r rhych ar adeg sefydlu'r cnwd y caniateir defnyddio molwsgladdwyr. Ni chaniateir defnyddio unrhyw blaladdwyr eraill.
- Mae defnyddio calch a gwrtaith yn dderbyniol.
- Ni ddylid pori'r cnwd cyn 15 Hydref ac ni ddylid aredig y tir nes 1 Mawrth yn y flwyddyn sy'n dilyn sefydlu'r cnwd.
- Opsiwn i'w symud mewn cylch yw hwn a gellir ei symud o gwmpas y fferm yn flynyddol cyhyd ag y cedwir cyfanswm yr arwynebedd y cytunwyd arno.
- Ymgymerer â'r holl ragnodau perthnasol sy'n gymwys i gynefinoedd bywyd gwyllt ac a ddynodir o dan Tir Cynnal.

## RHAN 3 —

## CYNLLUN RHEOLI ADNODDAU FFERM

Bydd yn rhaid i bob un sy'n cymryd rhan gwblhau cynllun rheoli adnoddau fferm. Bydd angen i brif adran y cynllun adnoddau fferm gael ei chwblhau o fewn 6 mis ar ôl ymrwymo i gytundeb Tir Cynnal.

Bydd yn ofynnol i'r rhai sy'n cymryd rhan ddiweddaru'r ddogfen, drwy wneud newidiadau iddi pan fo hynny'n ofynnol.

Bydd angen paratoi'r Cynllun a'i ddangos i un o Swyddogion y Cynulliad pan fydd yn amser arolygu'r fferm.

Os yw fferm yn cynhyrchu, storio neu'n gwaredu slyri, tail buarth fferm, neu ddeunydd gwastraff organig arall, mae Cynllun Rheoli Tail yn ofynnol. Os nad oes Cynllun Rheoli Tail sy'n ymwneud â'r ardal gytundeb ar gael eisoes, mae'n ofynnol i'r deiliad cytundeb baratoi un, gan ddefnyddio'r templed Tir Cynnal a ddyluniwyd at y diben hwnnw.

Rhaid cwblhau'r Cynllun Rheoli Tail o fewn deuddeng mis ar ôl ymrwymo i gytundeb Tir Cynnal.

Os taenir gwrtaith organig neu anorganig ar y tir cytundeb, mae Cynllun Rheoli Maetholion Pridd yn ofynnol. Os nad oes Cynllun Rheoli Maetholion Pridd ar gael yn hwylus, rhaid i'r parti arall baratoi un gan ddefnyddio'r templed Tir Cynnal a ddyluniwyd at y diben hwnnw. Rhaid paratoi'r Cynllun Rheoli Maetholion Pridd o fewn deuddeng mis i ymrwymo i gytundeb Tir Cynnal.

Rhaid adolygu prif ran y Cynllun Rheoli Adnoddau, ac os ydynt yn ofynnol, y Cynllun Rheoli Tail a'r Cynllun Rheoli Maetholion Pridd, a hynny'n flynyddol o leiaf neu'n fwy aml os bernir gan y Cynulliad Cenedlaethol fod angen hynny.

# RHAN 4 —

## TALIADAU

Telir o dan y Rheoliadau yn flynyddol fesul hectar fel a ganlyn:

£45.00/ha am yr 20 hectar cyntaf

£30.00/ha rhwng 21-50 hectar

£25.00/ha rhwng 51-100 hectar

£5.00/ha rhwng 101-200 hectar

£2.00/ha am bob hectar dros 200 hectar

Gwneir taliadau'n flynyddol ar ffurf ôl-daliadau.